HOLL FWRLWM INDIA FODERN

Roedd taid y gomedïwraig Beth Angell yn genhadwr ym Mryniau Khasia yn India, ac yno y ganed a magwyd ei thad. Breuddwyd Beth oedd ymweld â'r wlad a'r ardaloedd yn gysylltiedig â'i theulu, ac yn y gyfres liwgar ***Angell yn India*** *mae'n llwyddo i wneud hynny. Wrth iddi ddilyn ôl-troed ei thylwyth, cawn olwg ar fywyd yn India fodern—gan gynnwys y datblygiadau cyffrous a'r cyfoeth newydd sy'n bodoli ochr yn ochr â thlodi torcalonnus. Mae Beth yn rhannu ei hargraffiadau â Sgrîn...*

HEN FARCHNAD DELHI

BETH ANGELL

ATGOF PLENTYN

Un haf roedd fy ffrind gorau wedi cael cath newydd a bûm yn crefu ar fy nhad i brynu anifail anwes i mi. Gwrthod gwnaeth o, gan ategu ein bod ni'n rhy brysur ac y byddwn i'n colli diddordeb ymhen dim (yr un bregeth fyddai'n rhoi i'm plant heddiw!). Dwi'n cofio cyhuddo yn bwdlyd "ma' siŵr bo' chdi di cael anifail." Mi ddwedodd iddo gael mwnci unwaith, ond yn anffodus cafodd y mwnci ei fwyta gan deigr yn ystod y nos!

Mae gen i hefyd go' plentyn o lun dyfrlliw yn hongian ar y wal yn y 'stafell fwyta yn fy nghartref. Llun o dŷ syml oedd hwn, ac er nad oedd dim yn anghyffredin amdano, roedd yn freuddwyd gennyf i ymweld â'r lle bu'n gartref i fy nhad a'i rieni. Ond gallwn ond freuddwydio, gan fod yr adeilad arbennig hwn yn sefyll mewn pentref bach o'r enw Jowai—yng ngogledd ddwyrain India.

FFYNIANT INDIA FODERN

Dros y blynyddoedd diwethaf mae India wedi bod yn y newyddion yn feunyddiol. Mae economi'r wlad yn tyfu ar raddfa anhygoel—stori debyg i'r hyn a welwyd yn China. Mae'r gair superpower yn cael ei gysylltu â'r wlad, er bod nifer fawr o wahanol esboniadau i ystyr y term arbennig hwn. Ond wrth i economi'r wlad dyfu, does dim dwywaith bod India bellach â'r modd i ddylanwadu o amgylch y byd.

Bob tro yr oeddwn yn mynd ati i agor papur roedd llun o ganolfan gyfrifiadurol newydd yn Bangalore neu ysbyty newydd yn Delhi a'r rhain yn ganolfannau arloesol yn eu meysydd. Roedd yr adnoddau yn ddi-fai a'r neges yn glir—mae India ar i fyny!

Mae'r ystadegau am economi a ffyniant y wlad yn drawiadol. Mae 37% o bobl bellach yn cyfrif eu hunain yn ddosbarth canol a 61,000 o filiwnyddion yn byw yn y wlad, heb sôn am 70 o ganolfannau siopa yn mynd i fyny yn Mumbai yn 2008—a'r rhain yn ganolfannau na fydda mo'u cywilydd yn yr UDA.

"DROS Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF MAE INDIA WEDI BOD YN Y NEWYDDION YN FEUNYDDIOL."

GWEITHWYR GLO YM MRYNIAU KHASIA

REALITI BYWYD

Peidiwch â'm camddeall, pan dwi'n sôn am lewyrch India, roeddwn i hefyd yn ymwybodol bod tlodi enbyd yn perthyn iddi. Yn wir, treuliodd fy rhieni flwyddyn gyfan yn codi arian i'r ysbyty cenhadol yn Jowai er mwyn prynu offer paediatric, ac roedd clywed y straeon o'r ysbyty bychan hwn yn rhoi syniad i rywun o'r problemau, ond, roeddwn yn teimlo fy mod yn barod i wynebu'r her.

Pan gamais oddi ar yr awyren, y peth cyntaf i'm bwrw oedd yr arogl yn y maes awyr, yn gymysgedd melys o fwyd, gwres a chwys. Yna, wrth gamu allan i'r stryd i geisio cael tacsi ces fy mwrw gan yr holl bobl yn cynnig ceir, llety a chario bagiau. Un môr o wynebau yn awchu am gael helpu, er mwyn cael hawlio'r Rupee prin. Wrth weld y rhyddhad ar wynebau'r rhai a gafodd y gwaith, dechreuodd hi wawrio arnaf ba mor dlawd oedd ochr arall y geiniog.

Heblaw am Ewrop a'r Unol Daleithiau, dydw i erioed wedi bod yn 'teithio', felly nid oeddwn wedi paratoi fy hun o gwbl am yr hyn oedd am fy wynebu'n ddyddiol yn India, sef y tlodi erchyll. Roedd pawb wedi sôn wrtha i am beidio rhoi arian i bobl yn begera ond doedd neb wedi dweud efallai mai plentyn amddifad chwech oed a'i brawd bach fyddai'n curo'n ddagreuol ar ffenest y car. Doeddwn i ddim wedi fy mharatoi yn feddyliol i wynebu'r fath beth ac roedd y sefyllfa yn fy ngwylltio.

Ces deithio yn helaeth o amgylch India a'r un oedd y stori yn y dinasoedd mawrion a'r pentrefi bychain. Roedd cyfoeth a thlodi ochr yn ochr, os nad yn cyd-fyw yna'n bendant yn cydfodoli. Wrth i un garfan ffynnu edrychai'n debyg mai suddo fyddai'r garfan arall.

Y DYFODOL

Wrth deithio'r wlad a chwrdd â phobl anhygoel—pobl oedd am weld India yn llwyddo i bawb—clywais straeon am rai oedd yn meddwl ar raddfa leol ac yn ceisio gwella eu cymunedau, ynghyd ag eraill oedd yn meddwl yn fwy cenedlaethol. Er bod eu dulliau yn wahanol iawn, yr un oedd eu bwriad—sef tynnu'r wlad at ei gilydd ac adeiladu sylfaen ar gyfer y dyfodol.

“HOFFWN FEDDWL Y BYDD BYWYD WEDI GWELLA I BAWB–WEL DYNA’R FREUDDWYD...”

UN O BOBL AGRA

Y GYFRES

Y gobaith yn y rhaglenni **Angell yn India** yw rhoi argraff o wlad gyffrous, gwlad sydd yn newid a gwella ond wrth wneud hyn, mae dwy ochr—neu sawl ochr— i bob stori. Hoffwn fynd yn ôl i India, yn wir yn ôl i'r un ardaloedd ac at yr un bobl i weld beth fydd eu hanes ymhen 10 mlynedd. Hoffwn feddwl y bydd bywyd wedi gwella i bawb— wel dyna'r freuddwyd, a sôn am freuddwydio, do, ces i ymweld â chartref fy nhad yn Jowai.

Comedian Beth Angell shares her experiences and feelings as she realises her dream of visiting her father's birthplace in the Khasia Hills in India. As Beth undertakes an emotional journey, she sheds light on the massive changes taking place in India. It's a colourful, exciting journey as she follows in her family's footsteps and travels to the places where her grandfather was a missionary. In a country where 37% of the population now count themselves as middle-class, heartbreaking poverty lies alongside exciting new developments and great wealth in modern India. ■

ANGELL YN INDIA
21/00
4 Mawrth
O Gymru gan Cwmni Da
s4c.co.uk/ffeithiol